



Dinas a Sir Abertawe

Adolygiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2016/17 (Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017)

Adroddiad - Fersiwn Gryno

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn fformat gwahanol, e-bostiwch mynediadiwasanaethau@abertawe.gov.uk, ffoniwch 01792 636731 neu ysgrifennwch at:
Y Swyddog Cydraddoldeb, Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE.

Cyflwyniad

Dyma grynodedb o Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2016-17. Dyma'n chweched adolygiad dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd newydd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011. Gallwch ddarllen yr adroddiad adolygu llawn yn <https://www.abertawe.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol>.

Adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb

Rydym wedi adolygu cynnydd yn erbyn ein holl Amcanion Cydraddoldeb (sydd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) <http://www.abertawe.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol>) ym mis Ebrill 2017 ac mae'n rhoi'r wybodaeth fanwl ddiweddaraf yn yr adroddiad adolygu llawn. Dyma'r diweddariad cyntaf ar gyfer ein hamcanion ar gyfer 2016-2020 gan ein bod wedi mabwysiadu CCS newydd y llynedd.

Gwybodaeth am Gydraddoldeb

Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb i lywio ein gwaith, e.e. mewn Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, arolygon penodol a gwaith asesu anghenion.

Gwybodaeth am Gyflogaeth a Hyfforddiant

Mae'r wybodaeth bresennol am y gweithlu i'w chael yn yr adroddiad adolygu llawn.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall (sy'n berthnasol i ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) yn ystod 2016-17.

Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Wasanaethau Corfforaethol (PCC) – Cylch gwaith PCC (sy'n cynnwys cynghorwyr) yw cynorthwyo Aelod perthnasol y Cabinet fel y bo'n briodol ar faterion sy'n ymwneud â'r ymrwymadau polisi a fabwysiadwyd gan y cyngor. Sefydlwyd PCC ar Wasanaethau Corfforaethol ym mis Medi 2015. Mae PCC ar Ataliaeth a Diwygio Gofal Cymdeithasol hefyd yn ystyried materion cydraddoldeb.

Aelodau Hyrwyddo Cydraddoldeb - Mae ein Cynghorwyr Hyrwyddo'n gyfrifol am amrywiaeth eang o faterion cydraddoldeb yn ogystal â themâu ehangach megis iechyd a lles, gofalywyr a cham-drin domestig. Mae'r Cynghorwyr Hyrwyddo'n rhoi llais i grwpiau neu faterion nad ydynt fel arfer wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol ac y mae angen eu cadw yn rheng flaen busnes y cyngor er efallai nad yw unrhyw unigolyn neu bwyllgor yn gyfrifol amdanynt.

Asesiadau Effaith Cydraddoldeb - Rydym yn parhau i ddefnyddio ein proses AEC ehangedig, sy'n cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gofalywyr, cydlyniant cymunedol, tlodi, eithrio cymdeithasol a'r Gymraeg. Mae ein protocol Cydraddoldeb a Chynnwys (i sicrhau bod asesiadau effaith cydraddoldeb yn cael eu holrhain a'u monitro trwy broses adrodd a phenderfynu'r cyngor) yn parhau i fod yn ddefnyddiol

iawn wrth sicrhau yr ystyrir materion cydraddoldeb ac yr eir i'r afael â hwy lle y bo angen.

Ymgynghori a Chynnwys - Rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol drwy e.e. Fforwm LGBT (Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, a gynhelir mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru) Fforwm BME rhanbarthol (Lleiafrifoedd Ethnig a Du, a arweinir gan y Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig a'n Grŵp Cydgysylltu Anabledau.

Cydgynhyrchu - Eleni rydym wedi sefydlu Swydd Datblygu Cydgynhyrchu yn y trydydd sector. Nod y swydd hon yw hyrwyddo ymwybyddiaeth, gwybodaeth a chefnogaeth o ran arferion cydgynhyrchu a chydgyngyrciol yn y cyngor a'r trydydd sector, yn enwedig yn y Gwasanaethau i Oedolion.

Troseddau Casineb - Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu ar Droseddau Casineb ar gyfer Rhanddeiliaid yn Abertawe gyda phartneriaid allweddol. Er mwyn cynyddu nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt, mae hyfforddiant ymwybyddiaeth wedi cael ei ddarparu gan Gymorth i Ddiodefwyr a Chyngor Abertawe i asiantaethau partner a staff y cyngor.

Cydluniant Cymunedol - Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu'r rhaglen Cydluniant Cymunedol am flwyddyn arall (2017-18). Bydd y rhaglen newydd yn canolbwyntio ar faterion allweddol, gan gynnwys chwalu rhwystrau i gynhwysiad ac integreiddio, darparu cefnogaeth a mynd i'r afael â gwahaniaethu.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - Mae ein Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn nodi'r trefniadau sydd gan Ddinas a Sir Abertawe i sicrhau cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw priodol ar gyfer gwreiddio CCUHP yn fframwaith polisi'r awdurdod lleol. Mae cynllun gweithredu CCUHP wedi'i ddatblygu sy'n seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd yn glir, ac sy'n cwmpasu ymagwedd cyngor cyfan at hawliau plant.

Addysg ac Ysgolion - Mae ein gwaith gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi parhau yn 2016-17 gyda 49 o weithdai wedi'u cyflwyno mewn 17 o ysgolion ar draws Abertawe, gan ymgysylltu â mwy na 1200 o bobl ifanc. Datblygwyd offeryn a'i lansio er mwyn i ysgolion gofnodi bwlio ac aflonyddu sy'n seiliedig ar hunaniaeth. Mae mwy o waith nawr yn yr arfaeth i ddatblygu'r offeryn ymhellach a hyrwyddo ei ddefnydd a'i werth i ysgolion.

Tlodi - Mae trechu tlodi'n flaenoriaeth gorfforaethol ac yn un o'r pum amcan allweddol yng Nghynllun Corfforaethol Abertawe; ysgrifennwyd y strategaeth gyntaf i ymdrin â hyn yn 2014. Mae'r Strategaeth Trechu Tlodi wedi cael ei hadolygu a bydd strategaeth ddrafft ddiwygiedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mehefin 2017.

Diwygio Lles - Yn dilyn y gwaith blaenorol i liniaru effaith negyddol Diwygio Lles, mae gweithgareddau diweddar wedi cynnwys paratoi ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol a hyfforddiant parhaus i gynyddu ymwybyddiaeth.

Cam-drin Domestig - Mae Siop dan yr Unto ar gyfer Cam-drin Domestig yn parhau i ddatblygu ei gwasanaethau trwy ymagwedd amlasiantaeth, gyda thros 6000 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth yn ystod y 18 mis cyntaf ers ei sefydlu. Mae gwaith strategol wedi cael ei atgyfnerthu trwy ddatblygu Grŵp Strategaeth Cam-drin Domestig sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Strategaeth Cam-drin Domestig Abertawe ac unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig arall. I atgyfnerthu ein hagenda ataliol rydym wedi sefydlu Canolfan Cam-drin Domestig, gyda thîm amlddisgyblaeth a ddatblygwyd i gynorthwyo a chefnogi teuluoedd â phlant cyn gynted â phosib.

Fersiwn Hawdd ei Darllen - Byddwn yn cyhoeddi ein hadolygiad blynyddol mewn fformat hawdd ei ddarllen eto eleni.

Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (WITS) - Mae gennym ymagwedd gydlynol at yr holl waith cyfieithu a dehongli. Mae hefyd gennym wasanaeth negeseuon testun i breswylwyr.

Cronfa Newid - Cefnogwyd 16 o sefydliadau gwirfoddol bach a mawr yn ariannol yn ystod 2016-17 drwy grantiau i gyflwyno gwasanaethau a phrosiectau ar draws Abertawe.

Ariannu Plant a Phobl Ifanc LGBT - Roedd arian grant ar gael o fis Ebrill 2013 am hyd at flwyddyn i ddarparu gwasanaeth cefnogi peilot i bobl ifanc LGBT 13-25 oed. Mae'r cynllun peilot hwn wedi parhau yn 2016/17.

Gweithio gyda phobl hŷn – Mae gwaith eleni wedi cynnwys adolygu Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda a Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn 2015-2019 y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Bwrdd Dinas Iach. Cynhaliwyd digwyddiad i nodi Diwrnod Pobl Hŷn y DU ym mis Hydref yn ogystal â chyfarfod blynyddol â Rhwydwaith 50+ Abertawe ym mis Tachwedd 2016. Datblygwyd tudalennau gwe newydd Rhwydwaith 50+ Abertawe hefyd.

<http://www.abertawe.gov.uk/50plus>

Sylwadau cloi

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi ein galluogi i asesu ein cynnydd yn ystod blwyddyn gyntaf ein CCS diwygiedig. Gwnaed cynnydd yn erbyn yr holl Amcanion Cydraddoldeb ac mae swm yr wybodaeth ychwanegol mae'n rhaid i ni ei gyflwyno ar ben ein Hamcanion Cydraddoldeb yn parhau i gynyddu, sy'n gadarnhaol iawn. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r agenda gydraddoldeb a'r cynnydd ychwanegol sy'n cael ei wneud.